


Beth yw e i fod yn llywodraethwr ym Merthyr Tudful...

Mae'n fraint i mi allu cymryd rhan wrth siapio addysg y genhedlaeth nesaf ym mwrdeistref Merthyr Tudful. Mae'r rôl yn gyffrous, addysgiadol, boddhaus a heriol. Pam?

Cyffrous oherwydd mae'n gwneud i mi feddwl am addysg yn y termau ehangaf. Nid dim ond sut mae aelodau fy nheulu yn cael yn addysgu ond am sut mae cenedlaeth gyfan yn cael eu haddysgu i ddod yn ddinasyddion Merthyr Tudful, Cymru a'r DU; ac i feddwl am eu dylanwad ar fod yn ddinasyddion o'r byd.



Boddhaus, trwy wneud gwahaniaeth. Trwy wirfoddoli ac ymroddiad amser, mae llywodraethwyr yn chwarae rhan sylweddol wrth siapio dyfodol plant a phobl ifanc. Mae'n gyfle gwirioneddol o ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau a chynnig gwerth ychwanegol i'w hysgol leol.

'Mae bod yn llywodraethwr yn ffordd o wasanaethu'r ysgol a'r gymuned addysgol fel rhan o dîm o bobl ymrwymedig. Nid yw er budd personol - mae'r budd yn llawer ehangach'.

Heriol, oherwydd y newidiadau i'r cwricwlwm. Mae dull newydd cyffrous yn cael ei gyflwyno i bob ysgol a fydd yn golygu bod strwythur yr hyn sy'n cael ei ddysgu yn newid. Mae llywodraethwyr ac eraill wedi gorfod meddwl o'r newydd am sut mae plant yn cael eu dysgu a chofleidio dull newydd.

Addysgiadol i mi gan nad ydw i wedi gweithio mewn ysgol felly dwi wedi gorfod dysgu am sut mae ysgolion yn rhedeg. Mae Corff llywodraethu ysgol yn cwrdd o leiaf unwaith y tymor, ond mae llawer o is-bwyllgorau a chysylltiadau cwricwlwm sydd angen mewnbwn. Rydw i wedi dysgu sut mae ysgolion yn cael ei chyllido gan Lywodraeth Cymru, cael ei reoli gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chorff llywodraethu a'i redeg gan y staff - ac mae popeth yn cael ei arolygu gan Estyn, ac yn cael ei fesur trwy ddeilliannau safonol sy'n gorfod gwella yn barhaus.